Giving notice of marriage or civil partnership in Pembrokeshire

If you are over 18, a British National and live in Pembrokeshire this document may help you -

Before you can marry or form a civil partnership you will both be required to give notice of marriage or civil partnership. The notices can be given up to 12 months and must be given at least 28 days before the date of the ceremony.

The giving of notice is a legal statement to the Superintendent Registrar. You will both need to give your personal details and make a declaration that you are free to marry or form a civil partnership.

You will both need to attend in person at the register office in the district where you live or in which you have resided for at least seven full consecutive days.

If you are a British National you will need to bring with you –

Evidence of name, surname, date of birth and nationality

A current British Passport showing your current name
OR
A full UK Birth Certificate and current driving licence (full or provisional)
If you were born after December 1982 you will also need to provide either your mother's UK birth certificate OR your father's UK birth certificate together with your parent's marriage certificate.

Evidence of place of residence - one of the following

- Utility bill dated in last three months
- Bank or building society statement/passbook dated in last month
- Council tax bill dated in last 12 months
- Mortgage statement dated in last year
- Current residential tenancy agreement
- Valid Driving Licence

Evidence of ending of previous marriage/civil partnership

- UK Decree Absolute OR
- UK Death Certificate

Evidence of any change of name – such as change of name deed

Please ensure you provide original documents, photocopies cannot be accepted.

Each notice of marriage or civil partnership will cost £35.00.

Please note this is not a definitive list, it is advisable to speak to the Superintendent Registrar prior to your appointment to discuss your personal circumstances in all cases.

If you wish to give notices of marriage or civil partnership and are not British Nationals, are under 18 or are related to each other, please contact us for further advice.

To make an appointment to give your notice of marriage or civil partnership, or for further advice, please contact us by calling 01437 775176 or email. sr@pembrokeshire.gov.uk

Register Office, 1 Cherry Grove, Haverfordwest, Pembrokeshire, SA61 2NZ
Opening hours - Monday to Friday 9.00am - 5.00pm
Limited 2 hour free parking is available behind the Register Office

Hysbysiad am briodas neu bartneriaeth sifil yn Sir Benfro

Os ydych dros 18 oed, yn ddinesydd Prydeinig ac yn byw yn Sir Benfro, efallai y gall y ddogfen hon eich helpu.

Cyn y cewch chi briodi neu ffurfio partneriaeth sifil, mae gofyn i'r ddau ohonoch roi gwybod am y briodas neu'r bartneriaeth sifil. Gellir cyhoeddi'r hysbysiadau hyn hyd at 12 mis ymlaen llaw a rhaid rhoi gwybod o leiaf 28 diwrnod cyn dyddiad y seremoni.

Mae rhoi gwybod neu'r hysbysiad yn ddatganiad cyfreithiol i'r Cofrestrydd Arolygol. Bydd angen i'r ddau ohonoch roi eich manylion personol a gwneud datganiad eich bod yn rhydd i briodi neu ffurfio partneriaeth sifil.

Bydd gofyn i'r ddau ohonoch fynychu'r swyddfa gofrestru yn yr ardal lle rydych yn byw neu y buoch yn preswylio ynddi am o leiaf 7 niwrnod llawn ddilynol.

Os ydych yn Ddinesydd Prydeinig, fe fydd angen ichi ddod â –

Tystiolaeth o'ch enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni a chenedligrwydd

Pasbort Prydeinig cyfredol yn dangos eich enw presennol
NEU
Tystysgrif Geni lawn y DU a thrwydded yrru gyfredol (llawn neu dros dro)
Os cawsoch eich geni wedi Rhagfyr 1982, fe fydd hefyd angen ichi ddarparu un ai tystysgrif geni'r DU eich mam neu dystysgrif geni'r DU eich tad, ynghyd â thystysgrif priodas eich rhieni.

Tystiolaeth o'ch man preswylio – un o'r canlynol

- Bil gwasanaethau cyhoeddus wedi'i ddyddio o fewn y tri mis diwethaf
- Cyfriflen/paslyfr banc neu gymdeithas adeiladu wedi'i ddyddio o fewn y mis diwethaf
- Bil treth Cyngor wedi'i ddyddio o fewn y 12 mis diwethaf
- Cyfriflen morgais wedi'i ddyddio o fewn y flwyddyn ddiwethaf
- Cytundeb tenantiaeth preswyl cyfredol
- Trwydded Yrru ddilys

Tystiolaeth o briodas/partneriaeth sifil flaenorol yn dod i ben

- Archddyfarniad Absoliwt y DU NEU
- Tystysgrif Marwolaeth y DU

Tystiolaeth o unrhyw newid enw – megis gweithred newid enw

Gwnewch yn siŵr eich bod yn darparu dogfennau gwreiddiol, ni ellir derbyn llungopïau.

Bydd pob hysbysiad o briodas neu bartneriaeth sifil yn costio £35.00.

Noder nad ydy hon yn rhestr derfynol - mae'n well cael gair gyda'r Cofrestrydd Arolygol cyn eich apwyntiad er mwyn trafod amgylchiadau personol ymhob achos.

Os ydych yn dymuno rhoi gwybod neu wneud hysbysiad am briodas neu bartneriaeth sifil ac nad ydych yn Ddinasyddion Prydeinig, o dan 18 oed neu'n perthyn i'ch gilydd, cysylltwch â ni am gyngor pellach.

I wneud apwyntiad i gyflwyno eich hysbysiad am briodas neu bartneriaeth sifil, neu am gyngor pellach, cysylltwch â ni drwy alw 01437 775176 neu e-bostio. sr@pembrokeshire.gov.uk

Swyddfa Gofrestru, 1 Cherry Grove, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2NZ
Oriau agor: Llun - Gwener 9.00am - 5.00pm
Parcio prin 2 awr am ddim y tu ôl i'r Swyddfa Gofrestru